OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 111 (Cy. 39)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Darpariaeth Drosiannol a Darpariaeth Arbed) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *7 Chwefror 2022* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *9 Chwefror 2022* |
| *Yn dod i rym - -* | *8 Mawrth 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 74(1) a 75(1) o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Darpariaeth Drosiannol a Darpariaeth Arbed) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 8 Mawrth 2022.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Deddf 2021" ("*the 2021 Act*") yw Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021;

mae i "disgybl" yr ystyr a roddir i "pupil" yn adran 3 o Ddeddf Addysg 1996(**2**).

mae i "plentyn" yr ystyr a roddir i "child" yn adran 579(1) o Ddeddf 1996.

(2) Mae cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at "yr hen gyfraith" yn gyfeiriadau at y darpariaethau a ddiwygiwyd neu a ddiddymwyd gan Atodlen 2 i Ddeddf 2021 fel yr oeddent yn cael effaith yn union cyn i Atodlen 2 i Ddeddf 2021 ddod i rym.

(3) Mae cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at blentyn neu ddisgybl y darperir addysg iddo "o dan yr hen gwricwlwm" yn gyfeiriadau at y plant hynny a'r disgyblion hynny y mae Rhan 2, 3, neu 5 o Ddeddf 2021 yn gymwys iddynt, ond nad yw'r Rhan berthnasol o'r Ddeddf honno wedi dod i rym eto mewn perthynas â hwy.

(**1**) 2021 dsc 4. Gweler adran 82(1) o Ddeddf 2021 am y diffiniad o "rheoliadau".
(**2**) Diwygiwyd is-adran (1) gan adran 57(1) o Ddeddf Addysg 1997 (p. 44) a pharagraff 9 o Atodlen 7 iddi a diwygiwyd is-adran (1) ac (1A) ymhellach gan adran 215(1) o Ddeddf Addysg 2002 (p. 32) a pharagraff 34 o Atodlen 21 iddi.

**Darpariaeth arbed a darpariaeth drosiannol**

**3.**—(1) Er gwaethaf cychwyn adran 73 o Ddeddf 2021, ac Atodlen 2 iddi, mae'r hen gyfraith yn parhau i gael effaith—

(a) mewn perthynas â phlentyn neu ddisgybl y darperir addysg iddo o dan yr hen gwricwlwm, a

(b) mewn perthynas ag addysg a ddarperir felly.

(2) Mae paragraff (1) yn peidio â chael effaith ar 1 Medi 2028.

*Jeremy Miles*
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru

7 Chwefror 2022

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ("Deddf 2021") yn sefydlu fframwaith newydd ar gyfer cwricwlwm ac yn gwneud darpariaeth ynghylch asesu ar gyfer plant a disgyblion yng Nghymru ("y Cwricwlwm newydd i Gymru").

Bydd y Cwricwlwm newydd i Gymru yn cael ei gyflwyno i blant a disgyblion fesul cam. Daw'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn fandadol ar gyfer y grwpiau blwyddyn mewn ysgolion a lleoliadau eraill fel a ganlyn—

(a) ar 1 Medi 2022 ar gyfer—

(i) plant sy'n cael addysg feithrin,

(ii) disgyblion yn eu blwyddyn derbyn,

(iii) disgyblion ym mlynyddoedd 1 i 6,

(b) ar 1 Medi 2022 ar gyfer plant a disgyblion ym mlwyddyn 7 yn yr ysgolion hynny a'r lleoliadau eraill hynny lle y mae cwricwlwm wedi ei ddarparu yn unol â Deddf 2021,

(c) ar 1 Medi 2023 ar gyfer plant a disgyblion sydd, ar 1 Medi 2022, ym mlwyddyn 7 ac nad ydynt o fewn paragraff (b),

(d) ar 1 Medi 2023 ar gyfer plant a disgyblion ym mlwyddyn 8,

(e) ar 1 Medi 2024 ar gyfer plant a disgyblion ym mlwyddyn 9,

(f) ar 1 Medi 2025 ar gyfer plant a disgyblion ym mlwyddyn 10, ac

(g) ar 1 Medi 2026 ar gyfer plant a disgyblion ym mlwyddyn 11.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â phlant a disgyblion y darperir addysg iddynt—

(a) mewn ysgolion a gynhelir,

(b) mewn ysgolion meithrin a gynhelir,

(c) gan ddarparwyr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir,

(d) mewn unedau cyfeirio disgyblion, ac

(e) gan bersonau sy'n darparu addysgu a dysgu ar gyfer plentyn ac eithrio mewn ysgol a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion yn rhinwedd trefniadau a wneir o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996.

Cychwynnwyd Rhan 7 o Ddeddf 2021, gan gynnwys adran 73 ac Atodlen 2 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol a diddymiadau), gan adran 84(1) o Ddeddf 2021 ar 30 Ebrill 2021, drannoeth y Cydsyniad Brenhinol. Er mwyn darparu ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru fesul cam mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth arbed a darpariaeth drosiannol mewn perthynas â'r plant hynny a'r disgyblion hynny nad yw addysg yn cael ei darparu iddynt eto o dan y Cwricwlwm newydd i Gymru.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.